# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 4**

PWERAU YMCHWILIO ACC

**PENNOD 3**

CYFYNGIADAU AR BWERAU PENNOD 2

**99 Amddiffyniad ar gyfer cofnodion personol**

(1) Ni chaiff hysbysiad gwybodaeth ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu na chyflwyno cofnodion personol na gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys mewn cofnodion personol.

(2) Ond caiff hysbysiad gwybodaeth ei gwneud yn ofynnol i berson—

(a) cyflwyno dogfen (neu gopi o ddogfen) sy’n gofnod personol, gan hepgor yr wybodaeth sydd (naill ai ar ei phen ei hun neu ynghyd â gwybodaeth arall) yn gwneud y ddogfen yn gofnod personol;

(b) darparu gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys mewn dogfen sy’n gofnod personol, ac eithrio’r wybodaeth sydd (naill ai ar ei phen ei hun neu ynghyd â gwybodaeth arall) yn gwneud y ddogfen yn gofnod personol.

(3) Ystyr “cofnodion personol” yw dogfennau a chofnodion eraill sy’n ymwneud ag unigolyn (“P”) (boed fyw neu farw) y gellir adnabod pwy ydyw o’r cofnodion hynny ac sy’n ymwneud ag—

(a) iechyd corfforol neu iechyd meddwl P,

(b) cwnsela neu gymorth ysbrydol a roddwyd neu sydd i’w roi i P, neu

(c) cwnsela neu gymorth a roddwyd neu sydd i’w roi i P mewn perthynas â lles personol P gan berson sydd—

(i) oherwydd swydd neu alwedigaeth, â chyfrifoldebau o ran lles personol P, neu

(ii) oherwydd gorchymyn llys, â chyfrifoldebau o ran goruchwylio P.